OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 1134 (Cy. 272)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr M4 a Chefnffordd yr A48 (Cyffordd Earlswood i Gylchfan Llansawel, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Tachwedd 2016* |
| *Yn dod i rym* | *28 Tachwedd 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Drafford Llundain – De Cymru (yr M4) a Chefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A48) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y draffordd" ac "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r draffordd a'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Tachwedd 2016. Ei enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 a Chefnffordd yr A48 (Cyffordd Earlswood i Gylchfan Llansawel, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2016.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 28 Tachwedd 2016 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darn o’r draffordd” (“*the length of the motorway*”) yw’r darn cyfan o’r ffordd ymadael tua’r dwyrain wrth Gyffordd 42 y draffordd (Earlswood) ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw’r darnau o’r gefnffordd ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio unrhyw gerbyd i droi i’r dde na chaniatáu i unrhyw gerbyd droi i’r dde ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**Cyfyngiad**

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**Atal Dros Dro**

**6.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**7.** (1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Tachwedd 2016

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn wedi eu rhoi bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### Terfyn Cyflymder Dros Dro o 40 mya

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain y draffordd wrth Gyffordd 42 (Earlswood) sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd o'i chyffordd â'r A48 a'r A483 wrth Gyffordd Earlswood am bellter o 500 metr.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â ffordd ymadael tua'r dwyrain y draffordd wrth Gyffordd 42 (Earlswood) hyd at ei chyffordd â Chylchfan Llansawel.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Llansawel hyd at ei chyffordd â ffordd ymuno tua'r gorllewin y draffordd wrth Gyffordd 42 (Earlswood).

## ATODLEN 2

### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o Gyffordd 42 (Earlswood) i gyfeiriad y dwyrain hyd at ei chyffordd â Chylchfan Llansawel.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Llansawel hyd at ganolbwynt Cyffordd Earlswood yr A48 a'r A483.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffwrdd Earlswood yr A48 a'r A483 hyd at ddechrau ffordd ymuno tua'r gorllewin y draffordd wrth Gyffordd 42 (Earlswood).

## ATODLEN 3

### Gwahardd Troi i'r Dde Dros Dro

Troi i'r dde oddi ar lôn troi i'r dde tua'r dwyrain cefnffordd yr A48 wrth Gyffordd Earlswood.